

PWYLLGOR PENODI

Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021

PRESENNOL:	Y Cyngorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Y Cyngorydd Robert G Parry OBE FRAGS (Is-Gadeirydd) Y Cyngorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws a Meirion Jones
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH)
YMDDIHEURIADA U:	Y Cyngorydd A M Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Neb

1 **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

2 **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2021 yn gywir.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 **PENODIADAU STAFF**

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwynwyd 1 ymgeisydd ar y rhestr fer i'w ystyried gan y Pwyllgor Penodi fel unigolyn a allai gael ei benodi i rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeisydd, ac atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad ac wedyn gyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Darparwyd atborth gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar y broses asesu a oedd yn cynnwys profion seicometrig a chyfweiliad proffesiynol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y cyfweiliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Fôn Roberts i'r swydd uchod.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CHAIR**